# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB 2002-03 – YSTYRIED Y GYLLIDEB DDRAFFT

## PWRPAS

1. Cynnig sylwadau ar gyllideb ddrafft y tair blynedd nesaf 2002-05 a gyflwynwyd gan y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'i thrafod yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref 2001.

## ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor yn cynnig ei sylwadau ar y Papur Ystyriaethau yn **Atodiad 1** a chyllideb ddrafft Llywodraeth Leol a Thai yn **Atodiad 2.**

## CEFNDIR

3. Mae'r Cylch Cynllunio Cyllidebau hwn yn ymdrin â blwyddyn ariannol 2002-03 a'r ddwy flynedd wedi hynny. Mewn ambell achos, sicrhawyd adnoddau ychwanegol ar gyfer 2002-03 yn unig, a cheisir adnoddau ar gyfer y blynyddoedd wedi hynny yn y Cylchoedd Cynllunio Cyllidebau priodol.

4. Er nad yw'n flwyddyn Adolygu Gwariant, bydd y gyllideb hon yn dylanwadu'n drwm ar hynt yr ymdrechion i sicrhau meincnodau 2010 a bennwyd yn Gwell Cymru ym meysydd portffolio Llywodraeth Leol, Tai a Chymunedau, sef maes gwaith y Pwyllgor hwn. Cynhwysant yr holl wasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol, a'r gwariant sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny, yn ogystal â thai, adfywio trefol a lleihau troseddau.

5. Cyflwynodd y Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau bapur comisiynu ar 6 Mehefin a phapur pwnc ar 4 Gorffennaf a rhestrodd y Pwyllgor ei flaenoriaethau mewn llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Mrs Hart ar 18 Gorffennaf.

6. Yna, lluniodd y Gweinidog Cyllid gyllideb ddrafft, ac wedi ystyried sylwadau'r pwyllgorau pwnc, bydd yn cynnig y gyllideb derfynol tua 22 Tachwedd 2001.

## CYDYMFFURFIAETH

7. Paratowyd y papur hwn yn unol â Rheol Sefydlog 19 a ddywed "Cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r Cynulliad nodi’r gyllideb ddrafft, bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad sy’n aelod o bwyllgor pwnc yn gwahodd ei sylwadau ar y gyllideb ddrafft ac yn eu trosglwyddo i Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad."

**CYSWLLT POLISI**

8. Alan Thornton, Penaeth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol.

**Edwina Hart**

***Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau***

**Hydref 2001**